**Diogelwch a Gwybodaeth ar gyfer Canolfan Antur Awyr Agored Gilwern**

**2024**

Mae Antur Awyr Agored MonLife yn gweithredu o safle preswyl 110 gwely yng Ngilwern ger Y Fenni, sy'n cynnal profiadau preswyl gweithgareddau antur awyr agored, cymorth Cwricwlwm, gwasanaeth Ymgynghori Addysg awyr agored Cyngor Sir Fynwy, rhaglenni Ail-ymgysylltu, hyfforddiant ac alldeithiau gwobr Dug Caeredin.

Mae'r ganolfan yn dal ac yn gweithredu Trwydded Gweithgareddau Antur (AALA), Rhif Trwydded RO494: Cynllun Trwyddedu Gweithgareddau Antur (AALS) - Canlyniadau Darparwyr (hse.gov.uk) Mae'n bartner cyflenwi ar gyfer Canŵio Prydain, gwobr John Muir, cynllun gwobrau National Navigators a gwobrau Outdoor Explorers.

Fel rhan o'n trwyddedu, rydym yn cynnal asesiadau risg ar gyfer ein gweithgareddau a'r safle. Mae'r rhain ar gael i chi eu gweld, fodd bynnag os oes angen i chi ddangos tystiolaeth o hyn, darperir ein trwydded AALS ar ein tudalen adnoddau sy'n cael ei anfon allan ar ôl archebu ymweliad.

Ar gyfer ysgolion Sir Fynwy, rydym yn ddarparwr gweithgareddau cymeradwy. Mae hyn yn golygu nad oes angen i chi lanlwytho ein trwyddedau, asesiadau risg neu yswiriant i EVOLVE.

Fel rhan o'ch asesiad risg ymweld, mae angen i chi nodi bod "tebygolrwydd a risg o anaf, digwyddiad difrifol neu farwolaeth yn cael ei liniaru gan weithdrefnau gweithredu'r ganolfan, asesiadau risg, defnydd staff cymwys a medrus priodol, fel y gwelir gan drwydded Gweithgareddau Antur y Ganolfan".

Yn ogystal, rydym yn cynnal cynlluniau gweithredu brys i sicrhau bod pob rhagofal yn cael ei gymryd i leihau ac yna rheoli risg neu ddigwyddiadau.

Bydd pob ymweliad yn cael ei ddyrannu i hyfforddwr, a fydd yn briffio'r grŵp yn briodol i natur yr ymweliad, ac yn eu hanwytho o ran rhedeg y ganolfan, disgwyliadau a chanlyniadau'r ymweliad.

Mae hyn yn ein galluogi i gydymffurfio ymhellach ag unrhyw ofynion statudol perthnasol i gynnwys y Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith; Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005; Gofynion iechyd a thrafnidiaeth amgylcheddol.

Mae'r holl staff sy'n cyfarwyddo yn cael hyfforddiant cymorth cyntaf ac fel rhan o weithdrefnau gweithredu, maent yn cario offer cymorth cyntaf, cardiau cyswllt brys, cynlluniau rheoli digwyddiadau ac unrhyw wybodaeth grŵp perthnasol a ddarperir gan y grŵp ymweld mewn pecynnau ar eu personau, sy'n cael eu dychwelyd i'r swyddfa dan glo ar y safle ar ôl cwblhau unrhyw weithgaredd oddi ar y safle.

Nid ydym yn staffio'r ganolfan dros nos, ac mae angen i asesiad risg yr ymwelwyr sicrhau bod gweithdrefnau perthnasol ar waith am 7pm i 6am pan nad yw staff y ganolfan ar y safle. Mae'r ganolfan yn gweithredu cyfleuster ar-alwad i gefnogi'r cynnig preswyl dros nos, a staff cymorth os bydd argyfwng.
Os hoffech chi neu unrhyw ddisgyblion ymweld â'r ganolfan fel rhan o'ch cynllunio cyn ymweld, yna gallwn ddarparu ar gyfer hyn, gyda rhybudd, i gefnogi cyfranogwyr sydd â gofynion ychwanegol a'ch galluogi i asesu risg yr ymweliad yn addas o flaen llaw.

Mae'r ganolfan yn gweithredu dan yswiriant Cyngor Sir Fynwy gyda therfyn indemniad yswiriant atebolrwydd cyhoeddus o hyd at £25000000, ond nid yw'n cynnwys canslo unrhyw leoedd cyfranogwyr y cytunwyd arnynt yn flaenorol. Bydd angen i chi gyfeirio at yswiriant eich ysgol/mudiad/rhieni os na fydd cyfranogwr yn gallu ymuno â'r cwrs preswyl, ac er y byddwn yn gweithio gyda chi lle bo'n bosibl, ni allwn warantu y byddwn yn ad-dalu deiliad yr archeb os na fydd nifer y cyfranogwyr a gytunwyd o flaen llaw ac a anfonebwyd ar eu cyfer yn mynychu.

Mae angen i'r staff sy'n ymweld wneud y canlynol:

- Gwirio a chwblhau'r holl ddogfennau a ddarperir ar y dudalen adnoddau a'u dychwelyd i'r ganolfan o fewn y cyfnod amser y gofynnwyd amdano.
- Cytuno i ddilyn y cyfarwyddiadau a roddir i'n galluogi i fanteisio i'r eithaf ar eich amser gweithgaredd, wrth hefyd ddarparu profiad hwyliog a diogel.
- Rhoi gwybod i'r ganolfan am unrhyw ofynion hygyrchedd neu feddygol ychwanegol, salwch, cyfyngiadau deietegol neu alergenau drwy gwblhau'r "ffurflen gleient gyfrinachol" sydd i'w dychwelyd dros e-bost i outdooradventures@monmouthshire.gov.uk 4 wythnos cyn dyddiad eich ymweliad.
- Rhoi gwybod i rieni/gofalwyr neu oedolion cyfrifol bod "Mae gan MonLife Outdoor Adventure gofndo diogelwch rhagorol trwy reoli risg yn rheolaidd, a chynllunio. Er gwaethaf hyn, mae risg o hyd wrth fynychu, ac er mwyn helpu cyfranogwyr i dyfu'n unigolion cyfrifol, cyflawn a hyderus, ystyrir bod dod i gysylltiad â lefel y risg yn iach o ran eu datblygiad. Er bod pob cam i leihau'r tebygolrwydd o ddigwyddiad yn cael ei gymryd, pe bai rhywbeth yn digwydd, mae'r ganolfan yn cynnal gweithdrefnau a chynlluniau gweithredu brys i sicrhau bod yr holl gyfranogwyr yn cael eu cefnogi, a bod difrifoldeb y canlyniadau yn lleihau".

Bydd Antur Awyr Agored MonLife yn:

- Darparu'r holl gefnogaeth angenrheidiol i sicrhau profiad diogel i ymwelwyr.
- Darparu offer diogelwch a gynhelir sy'n briodol i'r gweithgaredd a gynlluniwyd.
- Cynnal safon rhagoriaeth drwy ddilyn polisïau a gweithdrefnau'r ganolfan, a'r cyngor ar gyfer iechyd a diogelwch, diogelu, trafnidiaeth a chyflenwi bwyd.

Os oes angen mwy o wybodaeth neu gefnogaeth arnoch, cysylltwch â'r ganolfan dros e-bost i outdooradventures@monmouthshire.gov.uk neu drwy ffonio 01873 735451.


*Tom Burrett*

Rheolwr y Ganolfan

Antur Awyr Agored Gilwern, Canolfan Addysg Awyr Agored Gilwern, Tŷ Mawr Lane, Gilwern, NP7 0EB

Rhif Ffôn / Tel 01291 440951/ 01873 735451

Symudol / Mobile: 07766 094894

Cyngor Sir Fynwy | Monmouthshire County Council

https://www.monlife.co.uk/cy/outdoor/

**Safety and Information for Gilwern Outdoor Adventure Centre**

**2024**

MonLife Outdoor Adventures operates from a 110 bed residential site at Gilwern Near Abergavenny running outdoor Adventurous activity residential experiences, Curriculum support, MCC outdoor Education Advisory service, Re-engage programmes, Duke of Edinburgh's award training and expeditions.

The centre holds and operates an Adventurous Activities License (AALA), Licence Number RO494: Adventure Activities Licensing Scheme (AALS) - Provider Results (hse.gov.uk) is a delivery partner for British Canoeing, John Muir award, National Navigators awards scheme and Outdoor Explorers awards.

As part of our licensing, we hold risk assessments for our activities and the site. These are available for you to view however if you need to evidence this, our AALS is provided on our resources page link which is sent out upon booking a visit.

For Monmouthshire schools, we are an approved activity provider. This means you do not need to upload our licenses, risk assessments or insurance to EVOLVE.

As part of your visit risk assessment, you need to reference that "likelihood and risk of injury, serious incident or death is mitigated by the centre operating procedures, risk assessments, deployment of appropriately qualified and competent staff as evidenced by the centres Adventurous Activity license".

In addition, we hold operating emergency action plans to ensure every precaution is taken to reduce then manage risk or incidents.

Each visit will be allocated to an instructor, who will brief the group appropriately to the nature of the visit, and induct them in the running of the centre, expectations, and outcomes of the visit.

This enables us to further comply with any relevant statutory requirements to include the health and safety at work act; regulatory reform ((fire safety) order 2005; Environmental health and transport requirements.

All instructing staff are first aid trained and as part of operating procedures, carry first aid equipment, emergency contact cards, incident management plans and any relevant group information provided by the visiting group in packs on their persons, which are returned to the locked office onsite upon completion of any off-site activity.

We do not staff the centre overnight, and the visitors own risk assessment needs to ensure relevant procedures are in place for 7pm to 6am when the centre staff are not onsite. The centre operates an on-call facility to support the overnight residential offer, and support staff in the event of an emergency.

If as part of your pre-visit planning you or any pupils would like to visit the centre, then we can accommodate with notice to support participants with additional requirements and enable you to suitably risk assess the visit in advance.

The centre operates under Monmouthshire County Councils insurance with a limit of indemnity public liability cover of up to £25000000, but does not cover cancellation of any previously agreed participants places. You will need to refer to your schools/organisation/parents insurance cover in the even that a

participant cannot join the residential and although we will work with you where possible, we cannot guarantee that we will refund the booking holder in the event of the pre agreed and invoiced number of participants not attending.

We need visiting staff to:

- Check and complete all documents provided on the resources page and return these to the centre within the requested time period.
- Agree to follow the instructions given to enable us to maximise your activity time, whilst providing a fun and safe experience.
- Notify the centre of any additional accessible or medical requirements, illness, dietary restrictions or allergens through completion of the "confidential client form" to be returned to outdooradventures@monmouthshire.gov.uk 4 weeks before your visit date.
- Notify parents/carers or responsible adults that "MonLife Outdoor Adventure hold an excellent safety record through regular risk management, and planning. Despite this, there is still a risk when attending, and to help participants to grow into responsible, well rounded, confident individuals, exposure to the level of risk is deemed healthy for development. Whilst every step to reduce the likelihood of an incident is taken, should an event occur, the centre hold procedures and emergency action plans to ensure that all participants are supported, and the severity of the outcomes reduced".

MonLife Outdoor Adventures will:

- Provide all the necessary support to ensure a safe fun visitor experience.
- Provide maintained safety equipment appropriate to the activity planned.
- Maintain the standard of excellence by following the centre and council policies and procedures for health and safety, safeguarding, transport and delivery of food.

If you require any more information or support, please contact the centre on outdooradventures@monmouthshire.gov.uk or 01873 735451

*Tom Burrett*

Centre Manager

Gilwern Outdoor Adventures, Gilwern OEC, Ty Mawr Lane,

Gilwern, NP7 0EB Tel / Ffôn 01291 440951/01873 735451

Mobile / Symudol 07970 980 829

Monmouthshire County Council | *Cyngor Sir Fynwy*

www.monlife.co.uk/outdoor/